

Fe'th gerir

“A'r bywyd yr wyf yn awr yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw trwy ffydd yr wyf, ffydd ym Mab Duw, yr hwn a'm carodd i ac a'i rhoes ei hun i farw trosof fi.” (adn. 20)

Beth am ddarllen Galatiaid 2:11–21 ac yna myfyrio

Sut mae'r cariad yma – y cariad dwyfol – yn dod i'n bywyd ni? Mae nifer o Gristnogion yn camddeall hyn. Credant ei fod o fewn eu gallu i gynhyrchu'r cariad hwn drwy eu hewyllys. Dywedodd un wraig wrthyf unwaith: “Rhaid i mi geisio caru'r Arglwydd fwy.” Credai fod cariad yn rhywbeth oedd yn perthyn i ymdrech ei hewyllys. Nid yw cariad dwyfol yn tarddu ohonom ni, mae yn dod i lawr oddi wrth Dduw i mewn i'n calon a'n henaid.

A minnau yn Nairobi ychydig flynyddoedd yn ôl, daeth dyn ataf a dweud: “Yr wyf wedi bod yn darllen *Pob Dydd Gyda Iesu* ers blynyddoedd ac wedi sylwi ar un neges, un pwyslais yr ydych yn dychwelyd ato dro ar ôl tro. Wedi i mi ei ddarllen am y tro cyntaf, ni wnaeth fawr o wahaniaeth, ond wrth i mi ailddarllen, a'i ddarllen eto, fe ddaeth fel corwynt i'm calon.” Roeddwn yn credu fy mod yn deall yr hyn yr oedd y dyn yn ceisio ei ddweud. Felly, gofynnais: “Beth yw yr un neges ganolog?” Atebodd: “Y neges yw, ni allwch garu dim ond i'r graddau yr ydych wedi adnabod cariad.” Roedd yn dweud y gwir. Rwy'n ailadrodd y neges oherwydd yr wyf yn cwrdd â chymaint o Gristnogion sydd yn credu fod caru Duw yn golygu ymdrech fawr. Mae'n golygu ymdrech i weithio allan oblygiadau ymarferol y cariad, ond mae'r cariad a ddaw atom yn dod, nid trwy ymdrech wyllt, ond trwy adnabod y cariad y mae Duw wedi ei ddangos tuag atom. Cariad, y cariad sydd yn dod oddi wrth Dduw, yw ein hymateb ni i'w gariad ef. Mae *agape* yn creu *agape* ynom ni. Nid yw'r nefoedd yn gwybod am unrhyw strategaeth well na'n dwyn at y groes a dal ein llygaid ar Iesu. Wrth inni weld maint y cariad, mae'r cen yn sythio oddi ar ein llygaid, ac fe gyneuir ein cariad â chariad Duw. Rwy'n credu mai dyma oedd Paul yn meddwl amdano wrth iddo ysgrifennu ein testun heddiw. Dyma oedd cyfrinach bywyd defosiynol yr apostol. Gweddïaf y bydd yn allwedd eich bywyd chwithau yn yr un modd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 136:1–26; Eff. 3:14–19

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut a pham mae Duw yn ailadrodd ei neges o gariad?
2. Beth yw neges ganolog gweddi Paul?

Gweddi

O Dad, rwy'n gweld mai hwn yw canolbwynt y cyfan. Rwy'n caru oherwydd fy mod wedi fy ngharu ac wedi fy ngharu â chariad anhraethol. Mae dy gariad wedi fy meddiannu. Caniatâ iddo fy meddiannu yn fwyfwy. Yn enw Iesu. Amen.